

% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth



40%

O WEITHGAREDD LLAETH



1,648

O FFERMYDD LLAETH YNG NGHYMRU WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO

Teithiau Astudio

Ym mis Medi, bu Grŵp Ffermwyr NextGen Dairy ar daith astudio i weld rhai o ffermwyr llaeth mwyaf blaengar y DU, gan gynnwys Metcalfe Farms, a enillodd Gwpan Aur NMR (Cofnodion Llaeth Cenedlaethol) ar gyfer 2018. Mewn perthynas â phrisiau llaeth presennol, roedd y grŵp yn canolbwyntio ar gostau cynhyrchiant yn seiliedig ar bris fesul litr (PPL).

Cliciwch [yma](#) i ddarllen eu hadroddiad.


Prosiectau Safleoedd Arddangos

Cynyddu defnydd o'r borfa a chynyddu faint o laeth a gynhyrchir o'r porthiant ar system laeth sy'n lloia drwy'r flwyddyn

Mae safle arddangos Erw Fawr yng Nghaerdybi, Ynys Môn eisau cynyddu eu cynhyrchiant o borthiant a phorfeydd ar gyfer eu buches o 250 o wartheg Holstein sy'n lloia drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod tymor yr hydref 2019, mae'r fferm wedi mapio isadeiledd y fferm ac mae'r wybodaeth wedi cael ei mewnbwnu ar y feddalwedd rheoli glaswellt, AgriNet. Mae staff y fferm wedi bod yn defnyddio mesurydd plât hyd at ddiwedd mis Tachwedd i sicrhau bod cyfnod pori olaf y gwartheg lleihaf cynhyrchiol yn caniatáu lletem laswellt iach ar gyfer y gwanwyn yn barod i droi'r gwartheg allan ar ddechrau Mawrth. Bydd unrhyw wartheg cynhyrchiol iawn hyd at 150 diwrnod mewn llaeth yn cael eu cadw dan do drwy'r flwyddyn, gan sicrhau bod modd defnyddio silwair glaswellt ac india corn o ansawdd uchel yn effeithlon.



Ffig 1. Isadeiledd y fferm wedi'i fapio gan Precision Grazing



Ffig 2. Lletem laswellt yn dilyn y daith fferm gyntaf ym mis Medi

Dethol gwell anifeiliaid cyfnewid mewn buches sy'n seiliedig ar y borfa ac yn lloia yn y gwanwyn

Mae safle arddangos Mountjoy, Trefgarn, Sir Benfro, yn awyddus i arwain gwelliant genetig y fuches er mwyn gwella perfformiad. Mae buchesi sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn yn dueddol o wneud penderfyniadau bridio yn seiliedig ar ffrwythlondeb er mwyn sicrhau bod cymaint o wartheg â phosibl yn lloia o fewn y cyfnod naw wythnos yn y gwanwyn. Mae hyn wedi arwain at gynnydd genetig ar gyfer nodweddion cynhyrchion ac iechyd yn cael eu harwain gan ochr y tarw'n unig. Mae amlygu unigolion a grwpiau o fuchod uwchraddol i'w bridio er mwyn sicrhau gwelliant genetig parhaus yn allweddol er mwyn sicrhau bod cymaint o kg o solidau llaeth yn cael eu cynhyrchu fesul buwch, heb anghofio ei hangen i ddod â llo bob gwanwyn.

Rhan gyntaf y prosiect oedd i genoteipio'r holl heffrod cyflo i ddedhol yr unigolion i'w cadw a'r rhai i'w gwerthu fel anifeiliaid dros ben. Yn y gorffennol, mae'r broses ddedhol wedi bod yn seiliedig ar edrychiad a dyddiad lloia, ond drwy ddefnyddio Adroddiad Geneteg y Fuches, bydd heffrod yn cael eu rancio'n fwy dibynadwy gan ddefnyddio Mynegai Lloia'r Gwanwyn (£SCI), sef mynegai'r DU sydd wedi'i deilwra ar gyfer buchesi sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn. Ynghyd â defnyddio semen yn ô lei ryw ar yr anifeiliaid gyda'r ranc uchaf, mae'r prosiect yn bwriadu dangos bod rhinweddau genetig, sy'n un o ddangosyddion perfformiad allweddol system AHDB, yn dangos cynnydd yn £SCI y fuches gyfartalog ar ddiwedd y prosiect tair blynedd.

Gwerthuso agweddau economaidd ac ymarferol magu heffrod llaeth ar fferm ddefaid ucheldir

Mae safle ffocws Llys Dinmael Isaf ger Corwen yn fferm ddefaid ucheldir sydd â phrofiad o ddefnyddio system pori cylchdro ar gyfer wŷn. Mae eu menter newydd yn cynnwys magu 20 o heffrod Holstein Friesian i'w gwerthu ar ôl iddynt loia fel heffrod ffres sy'n llaetha yn ddwy oed. Ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd ynglŷn â rheoli heffrod llaeth ar y borfa gyda system bori cylchdro wedi'i stocio'n ddwys, lle mae'r prif egwyddorion rheolaeth yn dueddol o fod yn seiliedig ar arferion pori'r fuches laeth aeddfed. Bydd y prosiect yn monitro cyfraddau twf heffrod yn erbyn gorchudd cyn ac ar ôl pori gyda'r nod o wella dealltwriaeth o sut y gellir pori heffrod Holstein Friesian ar system bori cylchdro ar sail celloedd, gyda'r nod o gynyddu perfformiad anifeiliaid ar system fwydo cost isel.

Bydd yr heffrod yn cael eu gaeafu allan ar fetys porthiant a silwair byrnau crwn yn ystod eu gaeaf cynataf. Bydd y lloia benyw wedi bod yn bwydo eu hunain y tu ôl i ffens drydanol ar gyfradd o 0.97 metr o fetys porthiant y dydd gyda sribed 40m o led, ynghyd â silwair byrnau crwn wedi'i borthi mewn cylch fwydo.

Roedd y lloia yn pwysu 246kg ar gyfartaledd ar 16 Tachwedd. Roedd cynnydd pwysau byw yn 0.89kg DLWG ar gyfartaledd gan ddefnyddio diet porthiant a betys porthiant ad lib yn ogystal â silwair byrnau crwn ar 6kg/pen/dydd.



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

 SICRHAU'R DIET GORAU I FUCHOD LLAETH I WELLA EU HIECHYD

 NWYDDAU CYHOEDDUS A FFERMIO

Grwpiau Trafod



CYNHALIWDY
CYFARFOD GRWPIAU
TRAFOD LLAETH

gyda



271
O FNYCHWYR

Nifer y Grwpiau Trafod Llaeth: 17

Astudiaeth Achos

Bu Anwen Jones, maethegydd annibynnol, yn siarad mewn cyfarfod grŵp trafod llaeth yn Sir Gâr i edrych ar fwydo gwartheg godro i alluogi'r ffermwyr i wneud penderfyniadau pwysig yn ymwneud â rheoli maeth er mwyn sicrhau'r iechyd a'r perfformiad gorau posib o fewn y fuches. Dechreuodd Anwen drafod pwysigrwydd maeth gwartheg godro, gan gynnwys:

- Pwysigrwydd rheoli buchod sych
- Cyflwr delfrydol ar gyfer y fuwch yn ystod y cyfnod sych
- Dylanwad rheoli buchod sych ar iechyd y fuwch wrth ddoed â llo
- Anawsterau lloia, twymyn llaeth ac ôl-frych yn ymwneud â rheolaeth annigonol o'r fuwch sych a maeth
- Dylanwad rheolaeth o'r fuwch sych ar gymeriant deunydd sych gwartheg ffres
- Maeth, fitaminau ac elfennau hybrin ar gyfer y fuwch sych

Yna, cafwyd trafodaeth ar ffactorau risg yn ymwneud ag iechyd y rwmen a bu Anwen yn pwysleisio pwysigrwydd lleihau'r risgiau hyn gan eu bod yn gallu achosi salwch i'r fuwch, gan arwain at leihad mewn cynhyrchiant a ffrwythlondeb. Mae ffactorau risg i'r rwmen yn cynnwys:

- Gormodedd o asid yn y porthiant
- Dull o fwydo dwysfwyd
- Lefelau starts a diraddiadwyedd
- Prosesu graen
- Cymhareb porthiant:dwysfwyd
- Amserau gorwedd
- Gwahanu'r TMR

Bu Anwen yn canolbwyntio ar omodedd o asid a sut y gellir lleihau hynny. Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â chymysgu gwahanol doriadau silwair wrth borthi yn ogystal gan fod hynny'n cael ei wneud ar un o'r ffermydd, a phwysleisiodd Anwen ar bwysigrwydd hyn er mwyn sicrhau diet cyson drwy gydol y gaeaf.

Yna, trafodwyd y problemau sy'n codi gyda silwair gwlyb a silwair aeddfed, a sut y mae'r ddau'n gallu achosi problemau i'r fuches laeth. Er enghraifft, mae'r silwair aeddfed yn dueddol o fod yn is o ran gwerth-D a phrotein, ac mewn mwy o berygl o lwydo a chynhesu. Mae'r silwair gwlyb ar y llaw arall yn gallu bod yn broblem gan ei fod yn gallu achosi gormodedd o asid, gan arwain at leihau pH y rwmen gan arwain at leihau cymeriant.

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 25 o ddigwyddiadau gyda 577 o fynychwyr

GWEITHDY
PDP



YNNI
ADNEWYDDADWY



MYNEDIAD
AT GYNGOR
TECHNEGOL



Diogelu eich busnes fferm ar gyfer CENEDLAETHAU'R
DYFODOL – a yw menter ar y cyd yn opsiwn ar eich cyfer?



*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn ymwneud â sawl sector sy'n dueddol o ddenu ffermwyr o bob sector, gan gynnwys y Sector Llaeth.

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 28 o gymorthfeydd



2 GYMORTHFA ADOLYGIAD
BUSNES DIGIDOL

9 CYMHORTHFA MARCHNATA
AC ARALLGYFEIRIO

9 CYMHORTHFA
GYNLLUNIO

6 CYMHORTHFA
OLYNTIAETH

2 GYMORTHFA
FFERMWYR TENANT

*Mae'r cymorthfeydd yn ddigwyddiadau traws-sector ac mae cymysgedd o ffermwyr o bob sector yn mynychu, gan gynnwys ffermwyr o'r Sector Llaeth.

Rhaglen Fentora

90

O
FFERMWYR
LLAETH



yn cael eu mentora
ar hyn o bryd



Cliciwch yma i weld y Cyfeirlyfr Mentora llawn.

Mentoro

3 DARPARWR
NEWYDD YN Y
SECTOR LLAETH

5 CEISIWR
NEWYDD YN Y
SECTOR LLAETH

6 PÂR POSIBL WEDI'I SEFYDLU
YN Y SECTOR LLAETH YN
YSTOD Y CHWARTER

5 PARTNERIAETH YN Y SECTOR LLAETH

yn derbyn cefnogaeth trwy'r
Gwasanaeth Cyngori
ar hyn o bryd

10 menter ar y cyd newydd
wedi cael eu sefydlu drwy
Mentoro yn ystod y cyfnod


Cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd:

Nifer y cyfleoedd
sy'n cael eu cynnig:



4 UNED
LLAETH

Cyfanswm y tir
sydd ar gael:



434 HECTAR
(UNEDAU LLAETH
YN UNIG)

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Cynhaliwyd

35

GWEITHDY

gyda



569

O FNYCHWYR

Gweithdai a gynhaliwyd:

TB Buchol



Dolur Rhydd Firydol
Buchol (BVD)

Lleihau Cloffni mewn
Gwartheg Llaeth



Lleihau
Mastitis mewn
Gwartheg
Llaeth

Deall Clefyd Johnne



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd 63 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector Llaeth.



GWELLA
BUSNES

12

UNIGOLYN
WEDI DERBYN
HYFFORDDIANT



HYFFORDDIANT
TECHNEGOL

25

UNIGOLYN
WEDI DERBYN
HYFFORDDIANT



DEFNYDDIO
PEIRIANNAU
AC OFFER

26

UNIGOLYN
WEDI DERBYN
HYFFORDDIANT

E-ddysgu

Dyma rai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

NIWMONIA
MEWN
GWARTHEG



CLOFFNI
MEWN
GWARTHEG



RHEOLI
SLYRI



COLOSTRWM
A LLOI



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

